CYFRES B1

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o Genesis

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Luc 2: 22-38

ADNOD ALLWEDDOL
Luc 2: 30

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon

Stori 1 Mair a Joseff yn y Deml

Pan fyddwn ni'n cael anrheg ar ein pen-blwydd, fe ddylen ni ddweud "Diolch yn fawr" amdani. Aeth Joseff a Mair â'r baban Iesu i'r Deml yn Jerwsalem i ddweud "Diolch yn fawr" i Dduw am roi'r Baban hwn iddyn nhw. Ond fe gawson nhw syndod yno!

GRID GEIRIAU

Ysgrifennwch yr atebion yn y Grid Geiriau.

Aeth J _ _ _ _ a M _ _ _ i'r _ E _ _ yn
J _ _ _ _ _ _ _ _ i ddweud D _ _ _ _ am y Baban I _ _ _.



Pan oedden nhw yn y Deml, yn dweud "Diolch" wrth Dduw, daeth dyn o'r enw Simeon yno. Roedd Duw wedi addo iddo na fyddai'n marw nes iddo weld y Meseia – Iesu Grist. Pan welodd Simeon y baban Iesu, cymerodd ef yn ei freichiau, bendithiodd Dduw a diolch Iddo am y plentyn arbennig hwn. Roedd yn hapus iawn gan ei fod wedi gweld Iesu. Roedd yn galw Iesu yn Iachawdwriaeth Duw.

Lliwiwch y geiriau.

Iachawdwriaeth Duw.

2

Roedd hen wraig o'r enw Anna yn y Deml hefyd. Proffwydes oedd hi o lwyth Aser. Phanuel oedd enw ei thad. Roedd hi'n addoli Duw trwy'r amser gan ymprydio a gweddïo. Pan welodd hi Iesu, fe wnaeth hi ddiolch i Dduw hefyd.

YSGOL EIRIAU

Atebwch y cwestiynau hyn am Anna yn yr Ysgol Eiriau.

1. O ba lwyth oedd hi?
2. Pwy oedd ei thad?
3. A oedd hi'n ifanc ynteu'n hen?
4. Beth roedd hi'n ei wneud yn y deml?

		1	A			
2			N			
3			N			
		4	A			

8

Yn ogystal â diolch i Dduw am Iesu, roedd hi'n sôn amdano wrth bawb.

C **Beth arall wnaeth Anna? Llanwch y bylchau.**

Roedd hi'n s _ _ am I _ _ _ wrth bawb.

2

Roedd llawer o bobl yn diolch i Dduw pan gafodd Iesu ei eni. Cafodd ei eni i fod yn Waredwr y byd. Ydych chi wedi diolch iddo am ddod i fod yn Waredwr i chi?

Enw

DARLLENWCH
Luc 2: 39-52

ADNOD ALLWEDDOL
Luc 2: 40.

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon

Stori 2 Iesu'n Fachgen yn Nasareth



Roedd Iesu'n byw gyda Mair a Joseff yn Nasareth, Galilea pan oedd yn fachgen.

Bob blwyddyn, adeg gŵyl y Pasg, roedden nhw yn mynd o Nasareth i aros yn Jerwsalem am rai dyddiau i ddathlu gyda llawer o deuluoedd eraill.

Roedd yn amser cyffrous i'r plant i gael aros yn y ddinas fawr ac, ar ôl y Wledd, byddai pawb yn mynd adref gyda'i gilydd.

C Beth oedd enw'r adeg arbennig hon o'r flwyddyn?

G _ _ _ y P _ _ _.

4

Un tro, pan oedd Iesu'n ddeuddeg oed, cododd problem ar y ffordd adref! Roedd Iesu ar goll! Roedd Mair a Joseff yn meddwl ei fod gyda'u ffrindiau neu eu perthnasau ac felly buont yn teithio am ddiwrnod cyfan cyn dechrau chwilio amdano.



Ond wedi methu cael hyd iddo ar ddiwedd y dydd, aethant yn ôl i Jerwsalem i chwilio amdano. Roedden nhw'n bryderus iawn.

Ar ôl chwilio am dri diwrnod, daethant o hyd iddo yn y Deml yn eistedd yng nghanol yr athrawon, yn gwrando arnynt ac yn holi cwestiynau iddynt.

C Faint oedd oed Iesu? Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir.

5 8 12

2

C **Am faint o amser fuodd Mair a Joseff yn chwilio am Iesu? Tynnwch linell o'r bys i'r amser cywir.**

Tair wythnos
Tair awr
Tri diwrnod

2

C **Lliwiwch y man lle daethant o hyd i Iesu.**

Mewn cwch

O dan goeden

Yn y Deml

Mewn tŷ

3

Roedd yr athrawon yn rhyfeddu bod Iesu'n gwybod cymaint am Dduw. Pan welodd Mair a Joseff ef, roedden nhw'n rhyfeddu hefyd. Gofynnodd ei fam iddo "Pam wnaethost ti hyn i ni? Mae dy dad a minnau wedi bod yn poeni'n ofnadwy amdanat ti." Atebodd Iesu "Pam y buoch chi'n chwilio amdanaf? Onid oeddech chi'n gwybod mai yn nhŷ fy Nhad y mae'n rhaid i mi fod?"

C **Ysgrifennwch yn y swigen siarad beth ddywedodd Iesu wrth ei fam.**

Pam y buoch chi'n ch_ _ _ _ _ amdanaf? Onid oeddech chi'n g_ _ _ _ _ mai yn nh_ fy Nh _ _ y mae'n rh_ _ _ i mi f_ _?"

5

Doedd Mair a Joseff ddim yn deall beth oedd Iesu'n ei ddweud. Duw oedd ei Dad. Roedd Iesu yn y Deml gan ei fod yn gwneud gwaith ei Dad, er ei fod mor ifanc. Pan aeth adref, bu'n ufudd i Mair a Joseff ym mhob ffordd gan eu plesio nhw a Duw, ei Dad.

C **Rhowch √ ger y brawddegau CYWIR.**

Duw oedd tad Iesu. .....

Bu Iesu'n ufudd i Mair a Joseff. .....

4

Wrth i ni dyfu, mae'n bwysig i ni geisio plesio'r rhai sy'n gofalu amdanom trwy fod yn ufudd iddynt. Mae hyn yn plesio Duw hefyd!

Enw

DARLLENWCH
Luc 3: 1-22

ADNOD ALLWEDDOL
Luc 3: 22

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon

Stori 3 Bedyddio yn Afon Iorddonen

Beth oedd yn digwydd ger Afon Iorddonen? Roedd llawer o bobl yn dod yno i wrando ac i wylio ac yna roedden nhw'n mynd adref i ddweud yr hanes wrth eu ffrindiau a'u cymdogion.

Dyn o'r enw Ioan oedd yn cael y sylw i gyd.

GRID GEIRIAU

1. Pwy oedd yn cael y sylw i gyd?

2. Beth oedd enw'r afon?

4

Yn y stori yn y Beibl, mae'n dweud bod "Gair Duw wedi dod at Ioan". Mae hyn yn golygu bod Duw wedi rhoi neges i Ioan i'w dweud wrth bobl eraill.

Lliwiwch y geiriau hyn.

"Daeth Gair Duw at Ioan"

Luc 3: 2

4

Dywedodd Ioan wrth y bobl eu bod nhw'n ddrwg ac y dylen nhw ddweud "Sori" am y pethau drwg roedden nhw wedi'u gwneud a stopio bod yn ddrwg. Yna, roedden nhw'n cael eu bedyddio yn Afon Iorddonen. Roedd hyn yn dangos eu bod nhw eisiau bod yn dda o hyn ymlaen.

Ydych chi wedi dweud "Sori" wrth Dduw am y pethau drwg rydych chi wedi'u gwneud? Os nad ydych chi, beth am ddweud "Sori, Duw" yn awr. Mae Duw yn barod i faddau ac i'ch helpu chi i fod yn dda.

Un diwrnod, daeth Iesu i gael ei fedyddio. Doedd dim angen iddo fe edifarhau (sef dweud "Sori" a stopio gwneud pethau drwg), achos Iesu yw'r unig un yn y byd sydd heb bechu erioed. Roedd hyn yn ei wneud yn arbennig iawn!

C **Beth nad oedd Iesu wedi'i wneud erioed?**

P _ _ _.

3

Pan gafodd Iesu ei fedyddio gan Ioan, siaradodd Duw o'r Nefoedd, gan ddangos mewn ffordd hyfryd ei fod yn falch iawn o'i Fab. Dywedodd "Ti yw fy Mab, yr Anwylyd". Hefyd, daeth yr Ysbryd Glân i lawr fel colomen arno.

C **Gan ddechrau gyda'r llythyren "t", a mynd i gyfeiriad y saeth, ysgrifennwch BOB YN AIL lythyren i ddangos beth ddywedodd Duw am Iesu.**

_ _ _ _ _ _
_ _ _, _ _
_ _ _ _ _ _ _.



4

C **Disgynnodd yr Ysbryd Glân ar Iesu ar ffurf aderyn. Lliwiwch yr aderyn cywir.**

Tylluan

Estrys

Cigfran

Colomen

2

C **O ble daeth y llais? Rhowch (✔) yn y blwch cywir.**

☐ Uffern ☐ Y Nefoedd ☐ Yr Afon

3

Enw

DARLLENWCH
Luc 4: 1-13

ADNOD ALLWEDDOL
Luc 4: 8

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon

Stori 4 Temtio yn yr Anialwch

Efallai'ch bod chi wedi bod ar eich pen eich hunan am funud yn yr ysgol ac wedi gweld rhywbeth sy'n perthyn i rywun arall, paced o greision efallai, ac wedi meddwl am ei gymryd.

Cawsoch chi'ch temtio i wneud rhywbeth drwg. Dydi hi ddim bob amser yn hawdd dweud "Na" pan fyddwch chi'n cael eich temtio i wneud rhywbeth drwg. Dewch i gael gweld beth wnaeth Iesu pan gafodd ei demtio.

C Llanwch y bylchau.

Dydi hi ddim bob amser yn hawdd d_ _ _ _ "Na" pan fyddwch chi'n cael eich temtio i wneud rhywbeth d_ _ _.

4

Bu Iesu yn yr anialwch am 40 diwrnod. Ni chafodd ddim i'w fwyta yn ystod yr amser hwnnw. Felly, roedd eisiau bwyd arno. Daeth y diafol i demtio Iesu trwy ofyn iddo droi cerrig yn fara.

C Lliwiwch y ffigwr sy'n dangos am faint o ddyddiau y bu Iesu yn yr anialwch.

40 30 20

2

C Rhowch (✓) neu (✗) ger pob brawddeg i ddangos a yw'n GYWIR neu'n ANGHYWIR.

Roedd Iesu ar lan y môr. _____

'Chafodd Iesu ddim i'w fwyta. _____

Cafodd Iesu ei demtio i droi cerrig yn fara. _____

6

Wedyn, aeth y diafol â Iesu i ben mynydd uchel a dangos holl deyrnasoedd y byd iddo. Dywedodd wrth Iesu y byddai'n cael y rhain i gyd pe bai'n ei addoli ef. Dywedodd Iesu wrth y diafol fod y Beibl yn dweud wrthym am beidio ag addoli neb ond Duw.

C Beth oedd y diafol eisiau i Iesu ei wneud?.

Ei a ___ _ _ _ _.

2

C Ysgrifennwch o'r Adnod Allweddol (Luc 4:8) y geiriau a ddywedodd Iesu wrth y diafol. Lliwiwch y geiriau sydd yno'n barod.

"__ Arglwydd __
Dduw _ addoli __ __
__ ____ __ ____ ".

6

Yn olaf, aeth y diafol â Iesu i Jerwsalem, i dŵr uchaf y Deml a dweud wrtho y gallai ei daflu ei hunan i lawr o'r tŷr os oedd yn Fab Duw ac ni fyddai'n cael ei anafu. Roedd yn temtio Iesu i ddangos ei allu. Eto, dywedodd Iesu wrth y diafol beth oedd gan Dduw i'w ddweud. Doedd Iesu ddim i fod i roi Duw ar brawf.



Adroddodd Iesu adnodau o'r Beibl (yr Hen Destament) i ddangos i'r diafol ei fod yn ufudd i Dduw, Ei Dad. Fel rydyn ni wedi dysgu'n barod, ni wnaeth Iesu bechu erioed.

Ar y groes ar ben Calfaria, cafodd yr Arglwydd Iesu ei gosbi am ein pechodau ni. Pan fyddwn ni'n credu hyn ac yn ymddiried ynddo, mae'n maddau ein pechodau ni. Yna, mae'n ein helpu ni i ddweud "Na" pan gawn ein temtio i wneud pethau drwg. Cofiwch, mae Iesu'n gryfach na'r diafol.

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

SAFON 2 B1

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4 a 15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120